

Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid ar Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Yr Athro Robert Lee¹

Digwyddiadau rhanddeiliaid

I gefnogi'r ymgynghoriad ar y ddogfen ar *Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd* a gyhoeddwyd ar 18 Mawrth 2019, cynhaliwyd digwyddiadau i randdeiliaid ar 25 Ebrill a 10 Mai 2019 yn Aberystwyth a Chaerdydd yn y drefn honno. Methodd digwyddiad arall a drefnwyd ym Mangor ym mis Ebrill â denu nifer digonol o fynychwyr i wneud y digwyddiad yn un dichonadwy, er bod rhai a gofrestrodd wedi mynychu yn Aberystwyth. Roedd fformat y cyfarfodydd rhanddeiliaid yr un fath ym mhob lleoliad. Rhoddodd Robert Lee, a hwylusodd y digwyddiadau, gyflwyniad byr am egwyddorion amgylcheddol i ddechrau ac yn ddiweddarach ar faterion yn ymwneud â llywodraethu amgylcheddol, ar ôl Brexit. Ar ôl pob un o'r cyflwyniadau hyn, cafwyd trafodaeth grŵp bach yn seiliedig yn bennaf ar y cwestiynau a ofynnwyd yn y Ddogfen Ymgynghori. Cafodd canlyniadau'r trafodaethau hyn eu hadrodd yn ôl i'r mynychwyr i gyd gyda'i gilydd. Yn olaf, cynigiodd Robert Lee grynodedb o'r rhain i sicrhau cywirdeb y safbwyntiau a gofnodwyd.

Egwyddorion Amgylcheddol

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r egwyddorion canlynol gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth i Gymru?

- a. Unioni yn y Tarddiad;
- b. Y Llygrwr sy'n Talu.

Er ei bod yn glir bod anfanteision yn ogystal â manteision yn cael eu rhagweld wrth gynnwys egwyddorion o fewn deddfwriaeth i Gymru, y consensws cyffredinol oedd ei fod yn gwneud synnwyr da i'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn Erthygl 191 yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) gael eu hail-fynegi mewn deddfwriaeth yng Nghymru. Byddai hyn yn golygu bod angen cynnwys yr egwyddor y llygrwr sy'n talu, a'r egwyddor unioni yn y tarddiad ochr yn ochr â'r egwyddor ragofalus a'r egwyddor atal, sydd i ryw raddau wedi'u cynrychioli yn y ddeddfwriaeth bresennol eisoes. Mynegwyd barn gan randdeiliaid y gallai egwyddorion fod yn arbennig o fuddiol o ystyried heriau amgylcheddol megis newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Nid oedd unrhyw fynegiant cryf o safbwynt nad oedd angen egwyddorion amgylcheddol ond (fel y gwelwn) roedd safbwyntiau'n amrywio ar ba egwyddorion y gellid eu cynnwys.

Derbyniwyd yn y cyfarfod y gallai egwyddorion yn y cyd-destun Cymreig wneud mwy na llywio polisi o ran bod ganddynt swyddogaeth weithredol i gyflawni datblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR). Arweiniodd hyn at rai rhanddeiliaid yn dadlau mai'r hyn sy'n bwysig yw nid yn unig bod yr egwyddorion yn cael eu copïo i mewn i ddeddfwriaeth, ond eu bod yn cael eu cymhwyso

¹ Ysgol y Gyfraith, University of Birmingham.

fel bod yr her o roi'r egwyddorion ar waith a rhoi tyniant iddynt yn cael ei bodloni. Roedd rhai rhanddeiliaid yn amau a oedd hyn yn iawn eto mewn perthynas ag atal a rhagofal yng nghyfraith Cymru.

Arweiniodd hyn yn ei dro at ddwy drafodaeth gysylltiedig. Un o'r rhain oedd bod lle i (ail)fynegi'n glir mewn deddfwriaeth yr egwyddorion perthnasol gan gynnwys atal a rhagofal. Credwyd bod hyn yn angenrheidiol er mwyn osgoi dull rhy dameidiog ac roedd barn gyffredinol y byddai egwyddorion yn gweithio'n well o'u gosod mewn strwythur cydlynol a chdir. Roedd barn hefyd y gallai canllawiau, o leiaf i gyrff cyhoeddus sy'n gweithredu o fewn yr egwyddorion hyn, fod yn angenrheidiol ac y gallai fod angen gwneud llawer i ganiatáu gwell dealltwriaeth o rôl egwyddorion amgylcheddol.

Cwestiwn 1: Yn gyffredinol roedd cefnogaeth i gynnwys yr egwyddor unioni yn y tarddiad ac egwyddor y llygrwr sy'n talu ond gyda chwestiynau ynghylch pa mor dda y gallai'r rhain gael eu rhoi ar waith a pha ganllawiau allai gyd-fynd â'r rhain.

2. Cwestiwn 2: A ydych chi'n credu bod yna egwyddorion eraill y dylid eu cynnwys?

Yna bu'r rhanddeiliaid yn ystyried a ellid cynnwys egwyddorion eraill ar y cyd â'r pedwar sy'n deillio o Erthygl 191 TFEU. Un anhawster wrth ateb y cwestiwn hwn oedd yn union beth yw egwyddor yn hytrach nag amcan (megis datblygu cynaliadwy) neu hawl (megis yr hawl i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol). Cafwyd rhywfaint o drafod ar y mater hwn, ond yn fras cafwyd awgrymiadau o hanfodion eraill y gellid eu mynegi mewn deddfwriaeth yng Nghymru. Felly, er enghraifft, soniwyd yn aml am lefel uchel o warchodaeth amgylcheddol sy'n un o'r amcanion a fynegir yn Erthygl 191 TFEU. Felly, cafodd egwyddorion peidio â chaniatáu dirywiad (neu gynydd ar gyfer rhai) ac integreiddio eu crybwyll. Cydnabu rhai bod deddfwriaeth bresennol Cymru yn cynnwys yr elfennau hyn er enghraifft yn y ffyrdd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac o dan egwyddorion SMNR yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Serch hynny, roedd rhai o'r farn bod deddfwriaeth Gymreig wedi'i llunio yng nghyd-destun cyfraith yr UE ac y gallai fod yn werth ailadrodd rhai o'r amodau ehangach o fewn Cyfraith amgylcheddol yr UE. Yn ogystal â hyn, roedd y farn y gallai ategu mwy o ddarnau i'r ddeddfwriaeth bresennol gymhlethu yn hytrach na gwneud fframwaith deddfwriaethol Cymru yn fwy eglur. Mynegiant ychydig yn wahanol o'r farn hon oedd bod angen gofal i sicrhau na fyddai pentwr cyfan o egwyddorion newydd yn cael ei ystyried fel arwydd o ddiffyg hyder yn fframweithiau presennol Cymru. Derbyniwyd yn gyffredinol mai dim ond profiad cynnar o ddeddfwriaeth 2015/2016 sydd gennym, ond un safbwynt oedd bod lles a SMNR yn themâu trefnu da y gallai egwyddorion eistedd fel rhan ohonynt, ac maen nhw'n gwneud hynny.

O'r 'egwyddorion' eraill a grybwyllwyd, yn ogystal â lefel uchel o warchod yr amgylchedd, integreiddio a pheidio â chaniatáu dirywiad, soniwyd yn aml am yr egwyddor cymesuredd. Roedd hyn weithiau fel dull o gydbwysu wrth gymhwyso egwyddorion eraill fel y llygrwr sy'n talu neu'r egwyddor ragofalus. O ran yr egwyddor ragofalus, mynegwyd rhywfaint o amheuaeth p'un a yw ei mynegiant yn adran 4 o Ddeddf 2016 o ran casglu tystiolaeth yn wyneb ansicrwydd yn crisialu'r gyfraith ryngwladol sy'n fframio'r egwyddor hon yn llawn. O ran integreiddio, derbyniwyd bod rhywfaint o anawsterau o ran y ffaith bod unrhyw integreiddio o anghenraid yn dibynnu ar derfynau cymhwysedd wedi ei ddatganoli. O'r egwyddorion mwy dychmygus a awgrymwyd oedd atebolrwydd amgylcheddol a'r posibilrwydd o waharddiad ar niwed trawsffiniol o fewn y Deyrnas Unedig.

Un mater olaf o ddadl yn y cyfarfodydd oedd beth i'w wneud am Gonfensiwn Aarhus a'i thair colofn, sef Gwybodaeth, cyfranogiad a mynediad at gyfiawnder. Ar un olwg bydd newidiadau bach yma gyda Brexit, fel mae'r rhan fwyaf o randdeiliaid gwybodus yn ei gydnabod, gan fod y DU yn llofnodwr ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn mudo seilwaith yr UE ar wybodaeth a chyfranogiad i gyfraith y DU. Er gwaethaf hyn, roedd rhai o'r farn bod hawliau Aarhus yn werth eu mynegi yng nghyfraith Cymru ynghyd ag egwyddorion ac fel dolen i'r elfennau llywodraethu mewn unrhyw ddeddfwriaeth sydd ar ddod. Roedd rhai'n derbyn y gallai sicrhau gwell mynediad at gyfiawnder amgylcheddol gael ei gyfyngu gan gwestiynau ynghylch cymhwysedd sydd wedi ei ddatganoli.

Cwestiwn 2: Cafwyd awgrym i gynnwys rhai egwyddorion penodol. Beth sydd angen ei benderfynu yn awr yw p'un ai cynnwys pedair egwyddor yr UE (yn unig) fel sydd wedi'i awgrymu yn y Ddogfen Ymgynghori fydd yn darparu'r llwybr mwyaf cydlynol neu p'un a oes lle i ail-fynegi egwyddorion eraill megis integreiddio a pheidio â chaniatáu dirywiad, sydd eisoes yn cael eu cynrychioli mewn deddfwriaeth yng Nghymru. Yn olaf, a ddylid rhoi sail statudol i hawliau Aarhus yng Nghymru, ac os felly, sut fyddai hynny'n cyd-fynd â hawliau mynediad presennol at wybodaeth, cyfranogiad a chyfiawnder?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno y dylai'r ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i gymhwyso egwyddorion SMNR gael ei hestyn?

Mae'r cwestiwn hwn yn holi am y posibilrwydd o ymestyn dyletswyddau SMNR i gyrff cyhoeddus yng Nghymru y tu hwnt i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Gweinidogion Cymru (wrth bennu polisi adnoddau naturiol). Yr hyn a gynigir yw bod egwyddorion SMNR a gweithredu SMNR yn cael eu cymhwyso i gyrff cyhoeddus ychwanegol yng Nghymru, yn unol â chymhwysedd wedi ei ddatganoli. Yn y digwyddiadau i randdeiliaid, cafwyd trafodaeth ar waith yr SMNR a'r profiad cynnar o weithio o'i fewn. Mynegwyd y teimlad nad oedd dealltwriaeth dda o egwyddorion y SMNR o fewn y sector cyhoeddus ehangach ac felly y byddai angen i unrhyw estyniad gael cefnogaeth ac ymgysylltiad gan sector cyhoeddus gwybodus. Awgrymwyd efallai y byddai'n rhaid i rôl cyrff cyhoeddus gwahanol o ran cyflawni'r SMNR gael ei chyfleu'n glir. Yn fras, fodd bynnag, nid oedd gwrthwynebiad mawr i'r estyniad a oedd yn cael ei ystyried gan rai fel creu graddau o gymesuredd rhwng dyletswyddau o dan Ddeddfau 2015 a 2016.

Cwestiwn 3: Credwyd bod rhesymau da, ar y cyfan, dros ymestyn egwyddorion a dyletswyddau SMNR i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i gyrff cyhoeddus ledled Cymru.

Cwestiwn 4: Pa gyrff cyhoeddus o Gymru sy'n gyfrifol am faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli ddylai fod â dyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

O ran pa gyrff ddylai fod yn destun unrhyw estyniad, un pryder oedd ystyriaethau cyllidebol. Roedd yna deimlad bod gan sawl rhan o'r sector cyhoeddus gyfyngiadau ariannol tynn ac efallai nad oes ganddynt yr adnoddau cyllidebol i gyflawni'n effeithiol y rhwymedigaethau newydd yr oedd disgwyl iddynt eu cyflawni. Ar y safbwynt hwn, byddai'r egwyddorion yr un mor effeithiol o ran sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy â gallu'r asiantaethau i gyflawni hyn. Derbyniwyd yn gyffredinol y gellid cael rhywfaint o gysondeb rhwng y cyrff sy'n ddarostyngedig i unrhyw strwythurau

llywodraethu newydd (cwestiwn 9 isod) a'r cyrff cyhoeddus sydd â chymhwysedd wedi ei ddatganoli y gallai dyletswyddau'r SMNR fod yn berthnasol iddynt.

Ail gwestiwn a gododd oedd a fyddai egwyddorion a dyletswyddau SMNR yn berthnasol i bob corff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus (gan gynnwys 'deilliadau'r Wladwriaeth' fel maen nhw'n cael eu galw). Yma roedd y farn yn gwahanu rhwng y rhai hynny a gredai y dylai cyrff o'r fath a allai harneisio adnoddau naturiol fod yn gyfrifol am eu rheoli'n gynaliadwy ac eraill oedd o'r farn unwaith y gosodir y ddyletswydd ar y sector cyhoeddus yng Nghymru, yna eu tasg nhw wedyn oedd rheoleiddio fel y cyrff eraill hynny y gallai eu gweithgarwch reolaeth gyflawni SMNR.

Cwestiwn 4: credwyd y gallai'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i drefniadau llywodraethu arfaethedig newydd hefyd fod yn destun egwyddorion a dyletswyddau SMNR estynedig. Roedd hyn yn destun pryder o ran y gallu ariannol i gyflawni ac ymholiad ynglŷn â sefyllfa cwmnïau neu eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus a allai awgrymu dyletswydd o dan SMNR, sy'n fater y bydd angen penderfyniad yn ei gylch.

Cwestiwn 18: A fyddai mantais rhannu set graidd o egwyddorion amgylcheddol cyffredin?

Roedd trafodaeth ar egwyddorion hefyd yn cynnwys y cwestiwn p'un a allai fod manteision mewn cyfres graidd gyffredin o egwyddorion amgylcheddol cyffredin naill ai ledled y DU neu o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr o leiaf. Mae'n werth cofio, i'r graddau y gallai egwyddorion helpu i lywio a llunio cyfraith a pholisi amgylcheddol, y gallai'r polisiau hynny fod yn destun adolygiad ac y gellid cwestiynu p'un a yw polisi yn cydymffurfio gydag egwyddor. Mewn awdurdodaeth gyfun mae'n gwneud synnwyr i rannu dealltwriaeth gyffredin o egwyddorion, posibilrwydd y mae'r Ddogfen Ymgynghori yn ei ddatgan ei hun yn agored, ond un y gellir ei flaen-gau gan gynydd a wnaed ar y Bil Amgylchedd Lloegr (Egwyddorion a Llywodraethu).

Mynegodd y rhanddeiliaid bryder ynghylch ymwahanu. Ystyriwyd bod cysondeb o ran dehongli yn bwysig. Credwyd y gallai rhai o'r egwyddorion fod yn arwyddocaol mewn unrhyw drafodaethau masnach yn dilyn Brexit a mynegwyd rhai ofnau na ddylid glastwreiddio egwyddorion amgylcheddol na rhyw fath o 'ras i'r gwaelod'. Dywedodd un grŵp o randdeiliaid nad yw'r amgylchedd yn parchu ffiniau a bod rhesymeg gynhenid i egwyddorion cyffredin. Barn braidd yn groes oedd y gallai darnio alluogi Cymru i arwain ar faterion egwyddor amgylcheddol a sefydlu datganiadau syml o ran egwyddor weithredol.

Un pwynt olaf a wnaed gan nifer o grwpiau trafod yw na ddylem fod yn rhy frysiog mewn ymgais i ymdrin ag unrhyw fwllch canfyddedig. Credwyd ei bod yn bwysicach cymryd amser i sicrhau bod egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cymhwyso'n effeithiol mewn strwythurau ymarferol.

Cwestiwn 18: Byddai'n well ganddynt gael set o egwyddorion cyffredin a chredwyd bod darnio'n destun gofid ond derbyniwyd pe na bai craidd cyffredin yna gallai Cymru gymryd amser i ddatblygu rhywbeth wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

Llywodraethu

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r bylchau sydd wedi'u nodi neu a ydych chi'n credu bod angen ystyried bylchau eraill?

Roedd yna gydnabyddiaeth eang bod gadael yr UE yn debygol o adael bylchau llywodraethu. Roedd rhanddeiliaid o wahanol etholaethau yn cefnogi'r syniad o fecanweithiau a fyddai'n cynyddu gwaith craffu ac yn caniatáu i gwynion gael eu clywed. Yn ogystal â'r themâu monitro, craffu, gorfodi a delio â chwynion, fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, cafwyd awgrym y gallai rhywfaint o amryfusedd fod â swyddogaeth atal ac y dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru 'gymryd y materion amgylcheddol hyn o ddifrif'. Pwysleisiwyd bod annibyniaeth unrhyw 'gorff' yn gydran angenrheidiol o fonitro a gorfodi effeithiol. Mynegwyd pryderon ynghylch ariannu unrhyw gorff, yn rhannol fel ffactor annibyniaeth ond hefyd oherwydd yr ystyriwyd bod adnoddau ar gyfer yr amgylchedd eisoes yn cael eu hystyried.

Un awgrym oedd modelu sut mae llywodraethu da yn edrych a strwythuro trefniadau newydd yn unol â hynny yn hytrach na dilyn model yr UE yn slafaid. Wedi dweud hynny, gwelwyd bod y swyddogaeth gwyno yn elfen arwyddocaol mewn unrhyw drefniant llywodraethu a chredwyd ei bod yn hollbwysig cael mynediad rhwydd at ddinasyddion Cymru. Roedd rhai'n rhagweld y byddai'r corff yn ystorfa o arbenigedd mewn materion amgylcheddol a oedd, yn eu dadl hwy, yn ddiffygiol ar adegau yng Nghymru. Yn olaf, roedd nifer o rhanddeiliaid yn cynghori bod lleoli corff arolygu yn gyfochrog â'r llywodraeth ac asiantaethau gorfodi yn fater tringar a fyddai'n galw am feddwl a chynllunio gofalus.

Cwestiwn 5: Ni fu unrhyw anghydweld gwirioneddol ar fater y bylchau sy'n codi nac ychwaith yr angen i lenwi'r bylchau hynny. Yn gyffredinol credwyd bod rhyw fath o gorff sy'n gyfrifol am graffu, gorfodi ac ymdrin â chwynion yn fuddiol, er i union raddau'r portffolio hwnnw arwain at ddadl (gweler cwestiwn 6).

Cwestiwn 6: Pa rôl ddylai cyrff atebolrwydd ei chwarae mewn strwythur llywodraethu amgylcheddol newydd yng Nghymru?

O ran union swyddogaethau unrhyw gorff goruchwyllo amgylcheddol a'i berthynas â strwythurau sefydliadol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, arweiniodd hyn at gryn drafodaeth mewn cyfarfodydd rhanddeiliaid. O dderbyn bod angen rhywbeth ac y dylai hyn gyd-fynd â'r seilwaith sefydliadol presennol, ni theimlwyd bod un corff presennol yn briodol fel y mae, gan nad oedd gan yr un ohonynt y ffocws amgylcheddol cryf a'r arbenigedd angenrheidiol. Ar y cyfan, roedd corff amgylcheddol newydd o ryw fath yn well na'r posibilrwydd o ymestyn rolau presennol, ond roedd hyn yn cyd-fynd â'r rhybudd bod yn rhaid osgoi dyblygu o ystyried presenoldeb comisiynwyr eraill (gan gynnwys y comisiynydd gwybodaeth, ombwdsmon y sector cyhoeddus ac Archwilydd Cyffredinol Cymru). Yn yr un modd, credwyd bod angen eglurder rhwng gwaith y corff hwn a gwaith y cyrff y gallai fod yn eu goruchwyllo (fel Cyfoeth Naturiol Cymru). Er gwaethaf y lefel hon o gytundeb, nid oedd unrhyw farn glir ynglŷn â pha fath o gorff newydd fyddai'n gweddu orau i'r tasgau a amlinellwyd. Un farn oedd y gallai Comisiynydd tebyg i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol weddu'n dda gyda'r strwythurau presennol. Roedd rhanddeiliaid eraill yn pryderu y gallai Comisiynydd gael ei ystyried yn ormod o ffigur ymgyrchu yn hytrach na chrafwr annibynnol (gweler cwestiwn 12 isod hefyd).

Dwy dasg a bwysleisiwyd oedd darparu arbenigedd a dadansoddi data. Gan fod data'n dod drwy'r strwythurau adrodd a gyflwynwyd yng Nghymru gan ddeddfau 2015 a 2016, roedd teimlad bod lle i gorff a fyddai'n darparu cyngor cyson ac yn monitro'r amgylchedd. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer rôl ragweithiol yn hytrach nag adweithiol a gallai helpu i feithrin cydnerthedd yn hytrach na darparu goruchwyliaeth yn unig. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y gallai comisiwn yn hytrach na chomisiynydd osod y cywair cywir a llwyddo i ymdrin â'r amrywiaeth o swyddogaethau a awgrymwyd.

Cwestiwn 6: Cytunwyd bod rôl i gorff amgylcheddol newydd yng Nghymru ac nad oedd y strwythurau presennol yn cyflawni'r ystod o swyddogaethau a nodwyd ac y byddai'n anodd eu haddasu. Dyma'r farn a fynegwyd er gwaethaf amheuon ynglŷn â'r posibilrwydd o ddyblygu swyddogaethau a gyflawnir gan gyrrff presennol. Nid oedd barn glir ynglŷn â'r math o gorff a allai gyflawni'r dyletswyddau a amlinellwyd ar ei gyfer, ond cafwyd peth awgrym y gallai comisiwn yn hytrach na chomisiynydd fod yn briodol.

Cwestiwn 7: A yw'r rôl a'r nod a ddisgrifir yn briodol i gorff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru?

Wrth drafod union gylch gwaith corff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, credwyd y dylai egwyddorion hanfodol llywodraethu da helpu i gynllunio rôl a swyddogaeth y corff yng Nghymru. Gwnaeth rhanddeiliaid yn y cyfarfod yn Aberystwyth y pwnt bod llawer yn derbyn bod sefydliadau cyfreithiol yn ymddwyn yn ddiuedd ac y gallai'r mewnwelediad hwn osod y cywair wrth lunio'r pwerau i'w cyflawni gan unrhyw gorff newydd. Roedd rhanddeiliaid yn hapus i weld rôl y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei hatgynhyrchu yn y tri maes sef monitro gweithredu (gan ymestyn y posibilrwydd o berfformiad), derbyn ac ymchwilio i gwynion a dilyn camau gorfodi fel bo'r angen.

Cwestiwn 7: Dylai rôl unrhyw gorff newydd efelychu rôl bresennol yr Undeb Ewropeaidd ond wrth gopïo hyn dylid rhoi sylw i egwyddorion llywodraethu da a meddwl yn ofalus o ran natur a graddau ei bwerau.

Cwestiwn 8: Pa feysydd polisi y dylid eu cynnwys o fewn cwmpas y trefniadau llywodraethu newydd?

O ran y meysydd polisi amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith corff newydd, dywedwyd y dylai'r corff, heb greu ail CNC, oruchwylio'r modd y mae rheoliadau amgylcheddol yn cael eu rhoi ar waith ond y dylai hefyd ymwneud â materion llywodraethu ehangach. Golygai hyn y dylid goruchwylio rhywfaint o ba mor dda yr oedd polisi amgylcheddol (e.e. SMNR) yn cael ei gyflawni. O feysydd cyfreithiol/polisi penodol yn amodol ar ei gylch gwaith, nodwyd rhai meysydd y mae angen craffu arnynt gan gynnwys meysydd morol/pysgodfeydd, rheoli tir, sicrhau nad oes unrhyw ddirywiad a goruchwylio cyfraith amgylcheddol yr UE a gadwyd.

Cwestiwn 8: Ar y cyfan, roedd yr angen am gylch gwaith eang yn cael ei dderbyn ac nid oedd unrhyw awgrymiadau y dylid eithrio meysydd polisi penodol.

Cwestiwn 9: Ydych chi'n credu bod y rhestr o gyrff a gynigir yn briodol?

Gofynnodd y cwestiwn hwn a oedd y rhestr arfaethedig o gyrff cyhoeddus i'w goruchwyllo yn briodol. Yn fras, yr ateb oedd bod y Ddogfen Ymgynghori yn gywir ar y cyfan ac y dylai'r holl gyrff cyhoeddus a restrir yn y ddogfen ymgynghori fod yn destun goruchwyliaeth gan y corff llywodraethu. Barn fwy eang a awgrymwyd gan rai oedd y dylai pob corff sy'n cyflawni swyddogaeth amgylcheddol gael ei gynnwys yn y cylch gwaith.

Cwestiwn 9: Barn y mwyafrif oedd bod y Ddogfen Ymgynghori wedi cynnwys y cyrff cyhoeddus perthnasol ond barn leiafrifol oedd y gallai oruchwyllo pob corff sy'n cyflawni swyddogaeth amgylcheddol ar ran dinasyddion yng Nghymru.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu bod yna gyrff Cymreig eraill a ddylai hefyd ddod o dan gylch gwaith y corff?

O ystyried yr atebion i gwestiwn 9, ychydig o drafod a fu ar gwestiwn 10 o ran pa gyrff eraill a allai gael eu goruchwyllo. Un farn a fynegwyd oedd y byddai angen ystyried y trefniadau goruchwyllo presennol yn ofalus, e.e. cyn cynnwys cwmnïau cyfleustodau a oedd eisoes yn cael eu rheoleiddio'n helaeth. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch goruchwyllo Gweinidogion y Goron mewn perthynas â'u swyddogaethau a gadwyd yn ôl yng Nghymru, a grybwyllwyd er enghraifft mewn perthynas â'r amgylchedd morol (dywedwyd bod angen goruchwyllo'n ddybryd). Credwyd nad oedd y swyddogaethau a gadwyd yn ôl bob amser yn glir ac y gallai fod angen rhywfaint o eglurder yma i arwain unrhyw gorff newydd.

Cwestiwn 10: Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r trefniadau goruchwyllo ond codwyd rhai materion o ran goruchwyllo Gweinidogion y Goron wrth gyflawni swyddogaethau a gadwyd yn ôl. Roedd rhai o'r farn y byddai angen ystyried unrhyw estyniad y tu hwnt i'r cyrff cyhoeddus a amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori yn ofalus os nad yw hynny ond i osgoi gwrthdaro neu orlwytho rheoleiddiol.

Cwestiwn 11: Beth ddylai statws, ffurf a chyfansoddiad corff goruchwyllo fod?

O ran statws, ffurf a chyfansoddiad y corff, pwysleisiwyd annibyniaeth yn gryf gyda chytundeb cyffredinol y byddai'n rhaid i'r corff fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Credwyd bod annibyniaeth yn hanfodol i gyflawni dyletswyddau a allai ddwyn y llywodraeth i gyfrif. Mynegwyd y farn na ddylai hwn fod yn gwango y gellid ei ysgubo i ffwrdd rywbyrd yn y dyfodol ac y dylai ei statws statudol ei osod ar wahân i gyrff cyhoeddus anadrannol eraill. Crwydrodd rhywfaint o'r drafodaeth yma i mewn i'r un o dan gwestiwn 19 (isod) gan fod ffafriaeth i gorff DU gyfan am y byddai'n cael ei warchod yn well rhag ymyrraeth llywodraethol ac y byddai'n fwy annibynnol. Derbyniwyd bod annibyniaeth gan gynnwys annibyniaeth ariannol yn fater anodd.

Cwestiwn 11: Y neges gref oedd dod o hyd i strwythurau a fyddai'n gwarantu annibyniaeth ac yn sicrhau bod y rhain wedi'u gwreiddio mewn strwythur statudol.

Cwestiwn 12: A ddylai corff goruchwyllo gael gweithredu fel corff cyngori hefyd?

O ran y cwestiwn a ddylai'r corff allu gweithredu mewn swyddogaeth gynghorol, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn y byddai hyn yn golygu bod y corff yn arwain ar yr amgylchedd ac y byddai'n gosod y cywair cywir. Ar y farn hon ni ddylid ystyried y corff yn 'oddefol'. Yn y cyd-destun hwn, soniwyd am y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fel corff a oedd yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb yn ogystal â chyflawni swyddogaeth oruchwyllo. Barn i'r gwrthwyneb oedd na ddylai roi cyngor neu pe bai'n gwneud hynny yna ni ddylai wneud y fath gyngor yn gyhoeddus oherwydd gallai hyn ragfarnu ei waith gorfodi yn ddiweddarach. Un safbwynt oedd bod y corff eisoes mewn sefyllfa i arfer nifer o swyddogaethau gan gynnwys monitro, craffu, ymchwilio i gwynion, cyfryngu a gorfodi a'r cyngor hwnnw, ar wahân i'r hyn a allai ddilyn o ymchwilio i gwynion, fod yn gam yn rhy bell. Yn olaf, roedd rhai o'r farn na fyddai cyngor yn cydweddu'n rhwydd ochr yn ochr â mandadau gwleidyddol er mwyn gweithredu.

Cwestiwn 12: Cafwyd barn gymysg am rôl ymgynghorol. I rai roedd yn codi problemau o wrthdaro buddiannau posibl, ond roedd eraill yn hapus i weld hyn fel cyfrifoldeb arwain a fyddai'n gosod cywair priodol ar gyfer cyflawni swyddogaethau eraill.

Cwestiwn 13: A ddylai corff goruchwyllo gael craffu ar y modd y rhoddir deddfwriaeth amgylcheddol ar waith?

Gofynnodd y cwestiwn hwn a ddylai'r corff goruchwyllo graffu ar y broses o roi deddfwriaeth amgylcheddol ar waith. Roedd y farn y dylai fod yn unfryd fwy neu lai ac ystyriwyd bod pŵer o'r fath yn gydran angenrheidiol o'i swyddogaethau craffu. Awgrymodd un grŵp mai rôl y corff fyddai sicrhau bod rheoleiddio amgylcheddol yn gweithio 'ar lawr gwlad'. Byddai rhai wedi mynd ymhellach ac wedi sôn am sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol yn sicrhau mesurau i sicrhau nad oes dirywiad a lliniaru newid yn yr hinsawdd.

Cwestiwn 13: Roedd cytundeb clir y dylid goruchwyllo'r broses o roi deddfwriaeth amgylcheddol ar waith.

Cwestiwn 14: Beth fyddai hyd a lled y swyddogaeth hon?

Pan ofynnwyd am hyd a lled y pwerau craffu, ymatebodd rhanddeiliaid gyda'r farn y dylai gwaith monitro fod yn dasg barhaus ac yn un y dylai'r corff newydd ei hun adrodd yn ei gylch yn rheolaidd. Roedd rhai o'r farn y dylai'r corff newydd goladu a dadansoddi data sy'n ymwneud â'r amgylchedd, sef tasg a allai fod yn fwy angenrheidiol o ystyried y posibilrwydd o golli cymorth gan Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at led y briff i'w roi i'r corff newydd, gan nodi ei fod yn cynnwys cymysgedd amrywiol o gyfrifoldebau arwyddocaol. Teimlai rhai rhanddeiliaid ei bod yn

anodd ystyried y rhain yn fanwl heb wybodaeth am raddfa a sylfaen adnoddau'r corff newydd. Dywedwyd y byddai hyn yn siapiro natur y corff a'i allu i gyflawni ei ddyletswyddau.

Arweiniodd y cwestiwn hwn at rywfaint o drafodaeth ar rôl adolygiad barnwrol. Ar y naill law, y rhesymeg y tu ôl i swyddogaeth ymdrin â chwynion y corff oedd bod adolygiad barnwrol yn cynrychioli ffyrdd anodd a chyfyngedig o gyrchu cyfiawnder amgylcheddol. Ar y llaw arall cododd y cwestiwn p'un a fyddai angen i'r corff newydd ei hun droi at adolygiad barnwrol er mwyn sicrhau gorfodaeth. Yn olaf, trafodwyd y posibilrwydd y gallai'r corff ei hun fod yn destun adolygiad barnwrol. Roedd barn sylweddol y dylai arddull ddewisol unrhyw gorff newydd fod yn gymodol yn hytrach nag yn wrthdrawiadol cyn belled ag y bo hyn yn bosibl mewn parthau lle mae llawer o gystadleuaeth. Yn yr un modd, wrth ymdrin â chwynion, awgrymwyd mai proses o gyfryngu fyddai'r ffordd orau i ddatrys anghydfodau lle'r oedd y rhain wedi codi.

Cwestiwn 14: Roedd barn y dylai swyddogaethau monitro a gorfodi unrhyw gorff newydd gael eu llywio gan ddata. Credwyd bod swyddogaethau'r corff newydd yn bellgyrhaeddol ond yn briodol. Dylid caniatáu'r gallu i gyflwyno achos adolygiad barnwrol ond dylid ei ddefnyddio'n gynnig, gan ildio i brosesau mwy cymodol.

Cwestiwn 15: Pa bwerau ddylai corff feddu arnyn nhw i allu ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd am fethiant honedig corff cyhoeddus i roi cyfraith amgylcheddol ar waith?

O ran pwerau ymchwilio wrth fynd ar drywydd cwynion, gwnaed sylw y dylai'r gweithdrefnau cwyno fod 'yn rhad ac am ddim ac yn rhydd o risg'. Credwyd y gallai cwynion gael eu dwysáu gyda gweithdrefnau cychwynnol i ddioli cwynion anfanwl neu flinderus amlwg ac wedi hynny gellid mynd drwy gamau gweithdrefnau'n ofalus i ganiatáu mwy o ymchwilio pe bai tystiolaeth ddechreuol yn awgrymu bod hynny'n angenrheidiol. Dywedodd rhai ei bod yn bwysig ystyried cwynion hyd at bwynt o ddatrysiad ac, os oes angen, i wneud iawn. Cymharol fach oedd y sylwadau ar ba gyrff oedd yn bodoli eisoes y gellid modelu'r corff newydd arnynt ond y ddau beth a grybwyllwyd amlaf oedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cwestiwn 15: Ystyriwyd bod rhwyddineb mynediad i'r broses gwyno yn bwysig gan ganiatáu i gwynion dibwys gael eu gwrthod yn gynnar. Ar ôl hynny, rhagwelwyd y byddai gweithdrefn ymchwilio gynyddol yn arwain at ddatrys y gŵyn ac yn gwneud iawn am unrhyw ddifrod.

Cwestiwn 16: Pa ddulliau gorfodi anffurfiol a ffurfiol ydych chi'n credu y dylai corff goruchwylio eu cynnal er mwyn cyflawni ei rôl a'i amcanion?

Pan ofynnwyd pa ddulliau ffurfiol ac anffurfiol y gellid eu defnyddio i orfodi, yr oedd rhanddeiliaid yn fodlon y gellid datrys anghydfodau ar lefel gymharol anffurfiol ar yr amod bod y gallu ganddynt i symud y tu hwnt i hyn i fesurau gorfodi mwy ffurfiol. Roedd rhai, er yn cytuno y byddai dull cymodi yn cael ei groesawu, yn mynegi amheuaeth a fyddai hyn yn profi'r ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys barn ranedig yn yr hyn a ystyrid yn bwnc a godwyd yn wleidyddol.

Cafwyd peth trafodaeth ar ddirwyon. Un farn oedd y byddai codi dirwyon yn rhoi mwy o straen ar gyrff cyhoeddus sydd eisoes yn dioddef o ddiffyg adnoddau, a bod pwerau megis un Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i godi dirwyon am beidio â chydymffurfio yn amhriodol i'r sector cyhoeddus. Roedd rhai'n amau bod angen dirwyon ar y sail eu bod yn credu y byddai cyrff cyhoeddus yn ymateb i ganfyddiadau anffafriol gan y corff newydd. Roedd eraill o'r farn y dylai'r camau unioni sydd ynghlwm wrth adolygiad barnwrol fod yn ddigonol mewn cyfyngder. Fel y mae hyn yn awgrymu, y farn fwyafrifol oedd y gallai fod angen goruchwylio dirwyon ariannol gan y llys o leiaf, ac mae'n bosibl na fyddai'n ddefnyddiol iawn.

Cwestiwn 16: Efallai y bydd gorfodaeth yn symud o fecanweithiau anffurfiol i dulliau mwy ffurfiol yn ôl yr angen, ond mynegwyd rhywfaint o amheuaeth o ran defnyddioldeb neu angenrheidrwydd dirwyon.

Cwestiwn 17: Pa gamau gorfodi sydd angen bod ar gael yn eich barn chi?

Wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn, ailystyriodd rhai rhanddeiliaid y cwestiwn cynharach ynghylch a allai cyngor lesteirio gorfodaeth pe bai'r corff yn cyflawni'r ddwy swyddogaeth hyn. Ar y llaw arall, credwyd ei bod yn bwysig i'r corff newydd rannu arfer gorau ar draws cyrff cyhoeddus y mae'n ymgysylltu â nhw. Cafwyd mwy o drafod ar ddirwyon gyda'r cwestiwn 'os ydym yn defnyddio dirwyon o ble y daw'r arian a ble y bydd yr arian yn mynd?' Unwaith eto ffafriwyd dull mwy cymodol gan y mwyafrif o rhanddeiliaid yn y gobaith y byddai'n atal yr angen am ddirwyon.

Cwestiwn 17: Prin fu'r drafodaeth ar fecanweithiau gorfodi ond unwaith eto mynegwyd peth ffafriaeth o blaid gweithio ar y cyd ar atebion gyda dulliau llymach ar gael ond yn y cefndir.

Cwestiwn 19: Pa strwythurau llywodraethu posib yn eich barn chi sydd eu hangen i alluogi cydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn caniatáu rhyngwyneb rhwng gweinyddiaethau?

Roedd y ddau grŵp rhanddeiliaid yn gweld gwerth mewn 'cytgord rheoleiddiol' ac mewn dulliau ar y cyd o lywodraethu. Roedd barn y byddai strwythur ar gyfer y DU gyfan yn ddelfrydol pe bai ond yn sefydlu unrhyw gorff llywodraethu ac yn sicrhau ei annibyniaeth a'i sail ariannol. Roedd cydnabyddiaeth, fodd bynnag, fod corff ar gyfer y DU gyfan yn gynyddol annhebygol. Mynegwyd amheuan ynghylch corff Eingl-Gymreig ar y cyd o ran goruchafiaeth bosibl Lloegr a'r diffyg cydnabyddiaeth posibl i strwythurau a ffyrdd o weithio yng Nghymru. Dangosodd rhanddeiliaid rywfaint o ymwybyddiaeth o'r angen mewn rhai meysydd i weithio o fewn fframweithiau cyffredin gan nodi, oherwydd hyn, y byddai ymgysylltiad cynnar rhwng cyrff sy'n dod i'r amlwg â'r broses lywodraethu yn hanfodol. Dywedwyd hefyd fod rôl i Gydbwyllgor y Gweinidogion gydgyssylltu gwaith unrhyw gyrff o'r fath.

Cwestiwn 19: Efallai y byddai corff y DU gyfan wedi cael llawer o gefnogaeth, ond cydnabuwyd bod hwn yn ddatblygiad annhebygol iawn. Oherwydd hynny, cefnogwyd corff yng Nghymru ond ar yr amod y byddai gweithio gyda chyrrff llywodraethu eraill o'r fath a allai ddod i'r amlwg yn y DU yn hollbwysig.

